

Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 26<sup>th</sup> June 2017** at 7.00pm

**PRESENT :-** His Worship The Mayor, Councillor D Hainge  
Deputy Mayor, Councillor John Wynn Jones  
Councillors :- Les Day (Chairman) C King C Savage  
D Fearnley J Martin Elin Walker Jones  
M Hughes G O Roberts John W Williams  
Enid Jones Mair Rowlands H Wyn Jones

Officer : Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

**44/17 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors I James, Keith Jones, N Pickavance, Gareth Roberts, N Pickavance and L Tugwell.

**45/17 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

None

**46/17 URGENT MATTERS**

The Town Clerk read out a letter of appreciation and thanks from Milicia Gerrard, the widow of Henry Esin who had passed away in Bangor on April 1st, the letter was addressed to the former Mayor, ex Councillor Dewi Williams who had attended the funeral.

The Town Clerk had received an email from Haydn Davies, Chair of Bangor BID asking for the City Council to nominate three members to sit on the sub-groups which had been set up between Bangor BID and Gwynedd Council to deal with town cleaning, traffic, and grounds maintenance.

**RESOLVED** that John Wynn Jones, Enid Parry and Conor Savage be the council representatives on these sub-groups.

The Town Clerk reported on the progress made to the Pier restoration project with the appointment of a scaffolding company and work had commenced on assessing shot blasting and welding requirements as well as a number of other issues to be determined. It was anticipated that work would start on site during August 2017. The Town Clerk would arrange for a briefing from the structural engineers on the background to the work and some detailed commentary on the work program.

The Chairman on behalf of the Council congratulated Councillor Enid Parry on her recent marriage and the best wishes of the Council were extended to her.

On a more sombre note the Chairman announced that the daughter of former Councillors Keith and June Marshall had suffered an accident and was in a poorly condition. Councillors are sorry to learn of the situation and asked the Clerk to send their best wishes to Mr & Mrs Marshall.

**47/17 EXCLUSION OF THE PRESS AND PUBLIC**

**RESOLVED:** that in accordance with Section 1 of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, the Press and Public be excluded during discussion of the following items which includes information of a confidential nature:

**48/17 VACANT SEAT – Glyder Ward**

The Committee had been given Power to Act by full Council in this matter. Presentations were received from three candidates, Members asked them to respond to four questions.

**RESOLVED:** that Mr Owen Hurcum be co-opted onto the Council to serve as a member for the vacant Glyder Seat.

**49/17 ONE VOICE WALES**

Members noted that the proposed presentation by the Chief Executive of One Voice Wales had been deferred until the Planning and Amenities Meeting on 17th of July due to time constraints this evening.

**50/17 DRAFT FINAL ACCOUNTS FOR THE YEAR ENDED 31 MARCH 2017**

Members considered a draft Audited Accounts for 2016/2017 and also received the Internal Auditor's Report and Annual Governance Statement.

The Town Clerk responded to questions raised by Members on the figures contained within the report and the process for the completion of the signing off the accounts for the year.

- RESOLVED:**
- a) **To approve Statement of Accounts for 2016/2017**
  - b) **To approve figures for the Annual Return 2016/2017**
  - c) **To approve responses within the requirements of the Statement of Assurance 2016/2017**

Members accepted the responsibility of the preparation of the accounts for the year ending 2016/2017 and confirmed that they agreed with all insurances indicated in the Statement of Assurances and the Chairman, Les Day signed the Annual Return for submission to the external auditors.

**51/17 APPOINTMENT OF REPRESENTATIVES ON OUTSIDE BODIES**

As a response to the request of Members from the last meeting, the Town Clerk had been in contact with Bangor University regarding the representation on the Universities Sports and Recreation sub-group and the Community Liaison Group.

Bangor University had responded saying that the Community Liaison Group (BULG) was still very much in operation however the membership was being reviewed following the recent election it was indicated that the City Council would continue to be members of that group.

The Sports and Recreation sub-group no longer existed and therefore representation was no longer required. Members asked the Town Clerk to contact the University to ascertain the terms of reference of the BULG and how the community interest is now represented with regards to the sports hall given that this group had apparently never been disbanded.

**52/17 INVOICES FOR PAYMENT**

It was noted that invoices as detailed on the schedule totalling £19,977.08 had been approved.

**RESOLVED:** that the payments be noted.

At the close of the meeting the chairman referred to the forthcoming Mayor's Sunday on 16th of July and asked Members to respond to the office on whether they were going to attend.

---

The Meeting finished at 8.20 pm

Cofnodion y **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Nos Lun 26 o Fehefin 2017 am 6.30 y.h.**

**YN BRESENNOL :-** Ei Deilyngdod y Maer y Cynghorydd D Hainge  
Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd John Wynn Jones

Cynghorwyr	Les Day (Cadeirydd)	C King	C Savage
	D Fearnley	J Martin	Elin Walker Jones
	M Hughes	G O Roberts	John W Williams
	Enid Jones	Mair Rowlands	H Wyn Jones

Swyddog : Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

#### 44/17 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Gareth Roberts, N Pickavance, I James, Keith Jones a L Tugwell.

#### 45/17 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim

#### 46/17 MATERION BRYS

Darllenodd Clerc y Dref lythyr o werthfawrogiad a diolch gan Milicia Gerrard, gweddw Henry Esin a fu farw ym Mangor ar Ebrill 1af, roedd y llythyr wedi'i gyfeirio at y cyn Faer, y cyn Gynghorydd Dewi Williams a oedd wedi mynychu ei angladd.

Derbyniodd Clerc y Dref e-bost gan Haydn Davies, Cadeirydd AGB Bangor yn gofyn i Gyngor y Ddinas enwebu tri aelod i eistedd ar yr is-grwpiau a oedd wedi cael eu sefydlu rhwng AGB Bangor a Chyngor Gwynedd i ddelio â glanhau'r dref, traffig, a chynnal a chadw tiroedd.

**PENDERFYNWYD** mai John Wynn Jones, Enid Parry a Conor Savage fyddai cynrychiolwyr y cyngor ar yr is-grwpiau hyn.

Adroddodd Clerc y Dref ar y cynnydd a wnaed i brosiect adfer y Pier gyda phenodi cwmni sgaffaldiau ac mae gwaith wedi dechrau ar asesu gofynion ffrwydro ergydion a weldio yn ogystal â nifer o faterion eraill i gael eu penderfynu. Rhagwelir y bydd y gwaith yn dechrau ar y safle yn ystod Awst 2017. Byddai Clerc y Dref yn trefnu sesiwn briffio gan y peirianwyr strwythurol ar y cefndir i'r gwaith a sylwebaeth fanwl ar y rhaglen waith.

Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd y Clerc y Cynghorydd Enid Parry ar ei phriodas ddiweddar ac estynnwyd dymuniadau gorau'r Cyngor iddi.

Ar nodyn mwy prudd, cyhoeddodd y Cadeirydd fod merch y cyn Gynghorwyr Keith a June Marshall wedi dioddef damwain a'i bod mewn cyflwr gwael. Roedd y Cynghorwyr yn flin i glywed am y sefyllfa a gofynnwyd i'r Clerc anfon eu dymuniadau gorau at Mr a Mrs Marshall.

#### 47/17 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** yn unol ag Adran 1 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd yn ystod trafodaeth yr eitemau canlynol sydd yn cynnwys gwybodaeth o natur gyfrinachol:

#### 48/17 SEDD WAG – Ward Glyder

Cafodd y Pwyllgor bŵer i weithredu gan y Cyngor llawn ar y mater yma. Derbyniwyd cyflwyniadau gan dri ymgeisydd, gofynnodd yr aelodau iddynt ymateb i bedwar cwestiwn.

**PENDERFYNWYD:** cyfethol Mr Owen Hurcum ar y Cyngor i wasanaethu fel aelod dros Sedd wag Glyder.

#### 49/17 UN LLAIS CYMRU

Nododd yr aelodau fod y cyflwyniad arfaethedig gan Brif Weithredwr Un Llais Cymru wedi cael ei ohirio tan y Cyfarfod Cynllunio a Mwynderau ar y 17eg o Orffennaf oherwydd cyfyngiadau amser heno.

## TUDALEN 11

### 50/17 CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT AM Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2017

Rhoddodd yr Aelodau sylw i'r Cyfrifon Archwiliedig drafft ar gyfer 2016/2017 a derbyniwyd hefyd Adroddiad yr Archwilydd Mewnol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Ymatebodd Clerc Dref i gwestiynau a godwyd gan Aelodau ar y ffigyrau oedd yn yr adroddiad a'r broses ar gyfer cwblhau cymeradwyo'r cyfrifon am y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD**

- a) Cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2016/2017
- b) Cymeradwyo ffigyrau'r Cyfrifon Blynyddol 2016/2017
- c) Cymeradwyo'r ymatebion o fewn gofynion y Datganiad Sicrhad 2016/2017

Derbyniodd yr aelodau'r cyfrifoldeb o baratoi'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn 2016/2017 a chadarnhawyd eu bod yn cytuno â'r gwarantau a oedd yn y Datganiad Sicrhad ac arwyddodd y Cadeirydd, Les Day, y Datganiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r archwilwyr allanol.

### 51/17 PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL

Mewn ymateb i gais aelodau yn y cyfarfod diwethaf, roedd Clerc y Ddinas wedi bod mewn cysylltiad â Phrifysgol Bangor ynglŷn â chynrychiolaeth ar is-grŵp Chwaraeon a Hamdden y Brifysgol a'r Grŵp Cyswllt Cymunedol.

Roedd Prifysgol Bangor wedi ymateb drwy ddweud fod y Grŵp Cyswllt Cymunedol (BULG) yn dal yn weithredol, fodd bynnag, roedd yr aelodaeth yn cael ei hadolygu yn dilyn yr etholiad diweddar a nodwyd y byddai Cyngor y Ddinas yn parhau i fod yn aelodau o'r grŵp hwnnw.

Nid oedd yr is-grŵp Chwaraeon a Hamdden yn bodoli mwyach felly nid oedd cynrychiolaeth bellach yn ofynnol. Gofynnodd yr aelodau i Glerc y Dref gysylltu â'r Brifysgol i ganfod cylch gorchwyl y BULG a sut mae buddiannau'r gymuned yn cael eu cynrychioli erbyn hyn o safbwynt y neuadd chwaraeon, o ystyried nad oedd y grŵp hwn mae'n debyg wedi cael ei ddirwyn i ben.

### 52/17 ANFONEBAU I'W TALU

Adroddwyd fod anfonebau fel ag yn ôl y rhestr yn dod i gyfanswm o £19,977.08 wedi cael eu cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD** nodi'r taliadau.

Ar ddiwedd y cyfarfod, cyfeiriodd y Cadeirydd at Sul y Maer a gynhelir ar 16 Gorffennaf a gofynnodd i aelodau roi gwybod i'r swyddfa a oeddent yn bwriadu bod yn bresennol.

---

Gorffennodd y Cyfarfod am 8.20 y.h.